Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Y Pwyllgor Cyllid**
**Finance Committee**
Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

Ann Jones AC
Cadeirydd Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

28 Ionawr 2015

Annwyl Ann

**Ymchwiliad i Ystyried Pwerau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi cytuno i gynnal ymchwiliad i ystyried pwerau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae Nick Bennett, yr Ombwdsmon, wedi tynnu sylw at bump prif faes o ran newidiadau i *Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005* a fyddai'n cryfhau'r rôl yn ei farn ef. Mae'r rhain yn cynnwys pwerau ar ei liwt ei hun, derbyn cwynion llafar, ymdrin â chwynion ar draws gwasanaethau cyhoeddus, awdurdodaeth a chysylltiadau â'r llysoedd. Mae'r Ombwdsmon wedi darparu papur cefndir sy'n amlinellu pob un o'r cynigion hyn.

Gan fod rôl yr Ombwdsmon yn berthnasol i gylchoedd gwaith sawl Pwyllgor, rwy'n ysgrifennu at Gadeiryddion y Pwyllgorau i roi gwybod iddynt am ein hymchwiliad a'n hymgynghoriad. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon copi o'r llythyr hwn ymlaen at unrhyw unigolyn neu sefydliad a hoffai gyfrannu at yr ymchwiliad.

Yn gywir,

**Jocelyn Davies AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Leanne Hatcher
Clerc/Clerk:
Ffôn/Phone: 0300 200 6343
E-bost / E-mail : Leanne.hatcher@cynulliad.cymru